**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# STRATEGAETH DAI GENEDLAETHOL AR GYFER CYMRU – YSTYRIAETH O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

## DIBEN

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad ar gynigion y Cynulliad Cenedlaethol am strategaeth dai genedlaethol ar gyfer Cymru, sydd wedi'i chynnwys yn 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru'.

## CRYNODEB

2. Mae'r papur hwn a'r atodiad amgaeëdig yn rhoi crynodeb i'r Pwyllgor o'r ymatebion i'r papur ymgynghori.

## CEFNDIR

3. Nododd Cartrefi Gwell i Bobl Cymru gynigion y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer polisi tai yng Nghymru. Ychwanegodd y ddogfen ymgynghori at y 'Fframwaith ar gyfer Strategaeth Dai Genedlaethol i Gymru' (Gorffennaf 1999), adroddiadau ac argymhellion Tasgluoedd y Strategaeth Dai (Ebrill 2000) a Phapur Gwyrdd Llywodraeth y DU ar Dai, sef 'Quality and Choice – a decent home for all' (Ebrill 2000).

4. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau'r Tasgluoedd (LGH-03-00 p.1) a chynigion y Papur Gwyrdd ar Dai (LGH-03-00 p.2) ar 18 Mai. Ystyriodd a chytunodd y pwyllgor hefyd ar ymateb i'r Papur Gwyrdd yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf (LGH-08-00 p.5). Ystyriwyd y ddogfen ymgynghori ddrafft gan y Pwyllgor ar 15 Tachwedd (LGH-12-00 p.2) a chafwyd dadl arni yn y cyfarfod llawn ar 28 Tachwedd.

## YSTYRIAETH

5. Mae crynodeb manwl o'r ymatebion (fesul pennod) i agweddau allweddol ar y ddogfen ymgynghori wedi'i gynnwys yn yr Atodiad i'r papur hwn.

6. Daeth yr ymgynghoriad ar Gartrefi Gwell i Bobl Cymru i ben ar 30 Mawrth 2001. Mewn

gwirionedd, daeth ymatebion i law ymhell ar ôl y dyddiad hwn. Ystyriwyd yr holl ymatebion wrth ddrafftio’r papur hwn.

7. Cafwyd cyfanswm o 67 o ymatebion ysgrifenedig fel a ganlyn:

| **Categori** | **Nifer** |
|---|---|
| Sefydliadau Academaidd | 1 |
| Aelodau’r Cynulliad/grwpiau gwleidyddol | 2 |
| Unigolion | 4 |
| Llywodraeth leol | 15 |
| Sector preifat | 2 |
| Cyrff proffesiynol/undebau llafur | 5 |
| Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig | 16 |
| Sector gwirfoddol | 15 |
| Eraill | 7 |

8. Mae rhestr gyflawn o’r ymatebion ysgrifenedig wedi’u hychwanegu i’r Atodiad. Yn ogystal â hyn, mynychodd tua 196 o bobl un o dair seminar, a gynhaliwyd ar y cyd gan y Sefydliad Tai Siartredig yng Nghymru a Phanel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan, i ystyried y papur ymgynghori. Mae adroddiad o’r seminarau hyn wedi’i gynnwys yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**CAMAU NESAF**

9. Mae’r strategaeth yn cael ei chwblhau yng ngoleuni’r ymatebion i’r ymgynghoriad a barn y Pwyllgor, cyn mynd i ddadl yn y cyfarfod llawn ar 12 Gorffennaf. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, cyhoeddir y ddogfen derfynol cyn gynted ag y bydd yn ymarferol i wneud hynny yn ystod yr haf.

## CYDYMFFURFIAETH

### Pwerau’r Cynulliad Cenedlaethol

10. Wedi’u cynnwys yn LGH-12-00 p.2. Nid yw’r papur hwn yn codi unrhyw faterion newydd sy’n ymwneud â chydymffurfiaeth. Yn unol â Hysbysiad Cyllid 01/01, nid yw’r papur yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad ei glirio ymlaen llaw.

### Goblygiadau Ariannol

11. Nid oes goblygiadau ar wariant rhaglenni fel canlyniad uniongyrchol i’r papur hwn. Caiff y gwaith sy’n gysylltiedig â’r ymarferiad ymgynghori ei gynnwys o fewn cyllidebau costau gweinyddu presennol ac arfaethedig.

## GWEITHREDU

12. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried ac i wneud sylwadau ar yr ymateb i’r ymarferiad ymgynghori.